Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cod Ymarfer er Lles Cŵn

awnw
ANIMAL WELFARE NETWORK WALES

Cynnwys

Rhagair	1
Cyflwyniad	2
Dyletswydd i Ofalu	2
Adran 1: Yr amgylchedd	3
Adran 2: Deiet	6
Adran 3: Ymddygiad	9
Adran 4: Cwmni	12
Adran 5: Iechyd	13
Atodiad 1: Y Gyfraith	16
Atodiad 2: Ffynonellau Gwybodaeth Defnyddiol	20

OGL © Hawlfraint y Goron 2018
WG35010 ISBN digidol 978-1-78937-331-8

Rhagair

O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 ("y Ddeddf"), os ydych yn berchen ar anifail neu'n gyfrifol am anifail, mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i gymryd camau rhesymol i sicrhau'ch bod yn diwallu ei anghenion lles. Chi sy'n gyfrifol am anghenion eich anifail, bob amser. Os nad ydych chi'n gallu gofalu am eich ci unrhyw bryd, rhaid ichi drefnu bod rhywun addas yn gallu gofalu amdano yn eich lle. Ond chi sy'n dal i fod yn gyfrifol yn llygad y gyfraith am eich ci, hyd yn oed pan fyddwch chi i ffwrdd. Mae'r person rydych chi wedi gadael eich ci gydag e hefyd yn gyfrifol amdano yn eich absenoldeb.

Nid oes un ffordd 'berffaith' o ofalu am gi gan fod pob ci a sefyllfa'n wahanol. Ond mae gan bob ci yr un anghenion sylfaenol. Mae'r cod hwn yn esbonio'r hyn y mae angen i chi ei wneud i gyrraedd y safon gofal sy'n ofynnol o dan y gyfraith. Os ydych yn rhiant neu'n warcheidwad i blentyn o dan 16 oed, chi sy'n gyfrifol am unrhyw anifail sydd yn ei ofal.

Nid yw torri'r cod hwn yn drosedd ynddi'i hun ond, os caiff achos ei ddwyn yn eich erbyn am drosedd o dan y Ddeddf, efallai y bydd y llys yn ystyried i ba raddau rydych wedi dilyn y cod wrth benderfynu a ydych wedi cyflawni trosedd neu wedi rhoi'r gofal gofynnol. Peidiwch ag achosi'ch ci i ddioddef yn ddiangen; gallai hyn fod yn drosedd ddifrifol o dan y Ddeddf.

Bydd y cod yn cyfeirio at 'arbenigwyr gofal anifeiliaid anwes'. Pobl yw'r rhain sydd, trwy brofiad neu gymhwyster, yn gallu rhoi cyngor arbenigol ar les ac ar rai agweddau ar iechyd anifeiliaid anwes. Enghreifftiau yw ymddygiadwyr anifeiliaid, nyrsys milfeddygol a sefydliadau lles penodedig. Dylai perchenogion droi at eu milfeddyg (fet) yn y lle cyntaf am gyngor ar iechyd eu hanifeiliaid.

Am ragor o wybodaeth am Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 a'ch cyfrifoldebau o dan y Ddeddf honno, a deddfau arall sy'n ymwneud â chŵn, gweler Atodiad 1 ar ddiwedd y cod hwn. Am ragor o ffynonellau gwybodaeth, gweler Atodiad 2.

Roedd y ddeddfwriaeth a ddyfynnir yn y cod ac yn Atodiad 1 yn gywir ar y dyddiad cyhoeddi ond cofiwch, gall newid.

Nid yw'r rhagair hwn yn rhan o'r cod ond mae'n esbonio ei ddiben a'i nodau cyffredinol. Nid yw Atodiad 1, sy'n rhoi gwybodaeth am y gofynion cyfreithiol perthnasol nac Atodiad 2, sy'n rhestru rhai ffynonellau gwybodaeth ychwanegol, chwaith yn rhan o'r cod.

Cafodd y Cod Ymarfer hwn ei ddiweddaru gyda help Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n ddiolchgar i'r Rhwydwaith am roi o'u hamser ac am eu hargymhellion doeth.

Cyflwyniad

Mae bod yn berchen ar gi a gofalu amdano yn hwyl ac yn rhywbeth sy'n rhoi llawer o bleser ond mae hefyd yn gyfrifoldeb mawr ac yn ymrwymiad hirdymor yn ariannol ac o ran gofal. Chi sy'n rheoli bywyd eich ci; eich cyfrifoldeb chi felly yw sicrhau eich bod yn diwallu ei anghenion, waeth beth yw'r amgylchiadau. Yn ôl Deddf Lles Anifeiliaid 2006, rhaid ichi gymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr:

- Bod gan eich ci le addas i fyw ynddo;
- Bod eich ci'n cael deiet iach;
- Bod eich ci'n cael ymddwyn yn naturiol;
- Bod gan eich ci gwmnïaeth addas;
- Eich bod yn amddiffyn eich ci rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd.

Byddwn yn eu hesbonio'n fanylach yn adrannau 1-5 o'r Cod hwn. Am ragor o gyngor, siaradwch â'ch milfeddyg neu'ch arbenigwr gofal anifeiliaid anwes. Rhestrir ffynonellau gwybodaeth eraill yn Atodiad 2.

Mae pob anifail yn wahanol ac wrth i chi ddod i adnabod eich ci, byddwch yn sylwi ar nodweddion cyfarwydd. Mae'n bwysig eich bod yn sylwi ar unrhyw newidiadau yn ei ymddygiad, gan y gallai'r rhain fod yn arwydd bod eich ci mewn gofid, neu'n dost/sâl, neu nad ydych yn diwallu ei anghenion mewn rhyw ffordd arall.

Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn o dan adran 14 Deddf Lles Anifeiliaid 2006 ("y Ddeddf"). Cyhoeddwyd y Cod Ymarfer hwn y tro cyntaf gan Weinidogion Cymru a daeth i rym ar 28 Tachwedd 2008. Daeth y fersiwn ddiweddaraf i rym ar 12 Tachwedd 2018 ac mae'n gymwys i Gymru yn unig. Pwrpas y Cod Ymarfer hwn yw rhoi cyngor ar sut i ddiwallu anghenion eich ci a sicrhau trwy hynny eich bod yn cydymffurfio â Deddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae'n berthnasol i bob ci rydych yn gyfrifol amdano.

Mae'r prif bethau y dylech eu gwybod wedi'u crynhoi yn y llyfryn 'Lles eich Cŵn'.

Eich cyfrifoldeb chi yw gofalu am eich ci yn unol â'r hyn a ddisgrifir yn y Cod hwn. Mae'n bwysig eich bod yn darllen y Cod Ymarfer cyflawn i ddeall yn llwyr anghenion lles eich ci a'r hyn sy'n rhaid ichi ei wneud o dan y gyfraith.

Dyletswydd i Ofalu

O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, mae dyletswydd gyfreithiol ar berchenogion a cheidwaid anifeiliaid i ofalu am yr anifeiliaid y maen nhw'n gyfrifol amdanyn nhw, p'un yw hwnnw'n gyfrifoldeb dros dro neu barhaol. Gall person fod yn gyfrifol am anifail os yw'n gofalu amdano. Mae perchennog ar y llaw arall yn dal i fod yn gyfrifol amdano hyd yn oed os mai rhywun arall sy'n gofalu amdano. Os mai plentyn o dan 16 oed sy'n gofalu am anifail, ei riant neu ei warcheidwad sy'n gyfrifol amdano. Mae hynny'n sicrhau mai oedolyn sydd fel arfer yn cael ei ddal yn gyfrifol am anifail. Os bydd ceidwad parhaol yn gadael anifail yng ngofal rhywun arall, dyletswydd y ceidwad parhaol yw gwneud yn siŵr bod y ceidwad dros dro yn atebol ac wedi cael caniatâd i weithredu mewn argyfwng.

Mae bod yn gyfrifol am anifail yn cynnwys deall ei hanghenion o ran ei iechyd a'i les a meddu ar y lefel briodol o wybodaeth a sgiliau i allu gofalu am yr anifail. Rhaid i'r rheini sy'n gyfrifol am anifail gadw hefyd at y ddeddfwriaeth, gwybod am y Codau Ymarfer perthnasol a gwybod pryd a ble i fynd ar ofyn cyngor a help arbenigwr e.e. milfeddyg.

Adran 1: Yr amgylchedd

1.1 Dylai'r amgylchedd sydd ar gael i gi fod yn addas i'w anghenion. Dylai fod digon o le ar ei gyfer neu le y gall fynd iddo i redeg ac i wneud ei fusnes. Dylai fod ganddo o leia un lle y gall deimlo'n ddiogel ynddo a chilio iddo a chael llonydd ynddo os yw'n dewis gwneud hynny. Dylai bob amser allu cael hyd i le y bydd yn gyfforddus ynddo.

Cysgu a gorffwys

1.2 Mae angen y canlynol ar bob ci:

- Ei le cyfforddus ei hunan, gyda rhywbeth glân i orwedd arno, y gall fynd iddo i orffwys a chysgu. Dylai fod mewn lle tawel.
- Gwely mewn lle sych, heb ddrafftiau, sydd wedi'i awyru'n dda.
- Bydd angen golchi a glanhau ei wely yn rheolaidd, neu ei gyfnewid am un newydd.
- Dylai fod ganddo le gorffwys heb bethau fel ymylon miniog a sblinters ynddo allai ei anafu.

1.3 Dylai unrhyw le cysgu y byddwch yn ei roi i'ch ci fod yn ddigon mawr iddo allu ymestyn yn gyfforddus a gorwedd ar ei hyd. Dylai'ch ci allu troi o gwmpas ac ysgwyd ei gynffon heb gyffwrdd yn yr ochrau.

Defnyddio Cewyll/Cratiau

1.4 Os ydych yn defnyddio cawell, neu grât fel y'i gelwir yn aml, dylech wneud hynny mewn ffordd bositif a dylai fod o faint sy'n briodol i'ch ci.

1.5 Peidiwch byth â chadw'r ci yn y crât trwy'r amser na'i ddefnyddio fel ffordd i'w gosbi. Os ydych yn defnyddio'r crât i gaethiwo'ch ci, mae'n bwysig fod y crât mewn lle y mae'r ci yn hapus bod ynddo a'i fod yn teimlo'n sâff a diofid. Peidiwch â'i adael ar ei ben ei hun yn ddigon hir iddo ddechrau teimlo'n ofidus.

1.6 Mae'n bwysig bod y crât o'r maint priodol i'ch ci ac nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer mwy nag un ci. Dylai'r crât fod o leiaf yn ddigon mawr i'ch ci allu eistedd a sefyll at ei daldra llawn, troi o gwmpas, ymestyn a gorwedd yn naturiol. Bydd ci'n debygol o dyfu'n rhy fawr i'r grât oedd ganddo pan oedd yn gi bach. Wrth i'ch ci dyfu, mae'n bwysig cael crât newydd iddo o faint addas.

1.7 Rhowch y crât mewn lle tawel, ymhell o bethau all codi ofn ar y ci neu ei boeni. Peidiwch â'i roi wrth ddrafftiau, ffynhonnell gwres nac yn llygad yr haul. Gofalwch fod cylchrediad aer da. Dylai fod ganddo ddŵr yfed glân ffres, gwely a teganau neu bethau eraill i'w gadw rhag diflasu. Gofalwch ei fod yn cael digonedd o gyfle i chwarae â chŵn eraill a phobl, i ymarfer corff ac i wneud ei fusnes.

1.8 Mae llawer o gymdeithasau lles yn cynnig cyngor a gwybodaeth am gratiau i gŵn.

Rhwystro Ci rhag Crwydro

1.9 Mae'n drosedd gadael i'ch ci grwydro. Dylai'r lle rydych yn cadw'ch ci ynddo fod yn gwbl ddiogel, gyda ffin o ansawdd uchel i'w rwystro rhag dianc neu grwydro. Dylai'r ffin fod yn ddigon diogel i rwystro anifeiliaid rhag dod i mewn a chadw ymwelwyr annisgwyl, gan gynnwys lladron, draw. Dylech gadw'r gatiau ar glo.

1.10 Dylai'r math o ffin, a'r deunydd y mae wedi'i wneud ohono, fod yn addas i'ch ci. Ystyriwch faint a thaldra'ch ci a faint y gall neidio, dringo neu balu. Gofalwch nad oes unrhyw ymylon miniog a allai anafu'ch ci ar unrhyw arwyneb. Os ydych yn defnyddio weiar, ystyriwch faint y rhwyll rhag i'ch ci gael ei ddal ynddo a chael anaf.

1.11 Mae ffensys anweledig sy'n rhoi sioc drydan trwy goler wedi'u gwahardd o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Coleri Electronig) (Cymru) 2010.

Cadw'ch Ci tu Allan

1.12 Os ydych am gadw neu adael eich ci y tu allan, mae nifer o bethau eraill y dylech eu hystyried. Mae'r rheini'n cynnwys:

- Diogelwch (gan gynnwys ei ddiogelu rhag lladron)
- Cysur a chysgod
- Cwmni a chyfle i ymwneud ag eraill
- Ei amddiffyn rhag anaf (gan gynnwys rhag sbwriel a sylweddau peryglus)
- Peidio â bod yn niwsans i gymdogion.

1.13 Yn ei gartref tu allan, dylai fod gan y ci le i gysgu a chwarae. Dylai ei amddiffyn rhag tywydd cas ac eithafol gan gynnwys gwres, oerfel a gwlybaniaeth. Dylai ei le cysgu fod yn ddigon mawr i'ch ci allu gorwedd ynddo'n gyfforddus (yn ei wely ac wrth ei ymyl) a rhowch ddefnydd gorwedd cyfforddus a glân iddo. Defnyddiwch inswleiddiad a rheolydd gwres i gadw'r tymheredd yn y man cysgu rhwng 10°C a 26°C.

1.14 Dylai'r man chwarae fod yn ddigon mawr i'ch ci allu gwneud ei fusnes heb iddo orfod cerdded trwy'r rhan front i ddychwelyd i'r man cysgu. Dylech garthu ei faw a'i ddŵr o leiaf unwaith bob dydd a glanhau a diheintio'r lle chwarae'n rheolaidd ac aml.

1.15 Mae cŵn sy'n cael eu cadw tu allan heb gwmni pobl nac anifeiliaid eraill a heb bethau fel teganau a phethau i'w cnoi i gadw eu meddyliau'n effro, yn gallu dioddef problemau seicolegol difrifol. Gallai hynny arwain at broblemau ymddygiad fel cnoi gormod ac arwyddion o ymosodedd. Dylech ofalu bod y ci yn cael digon o gwmnïaeth, ymarfer corff a phethau i'w ysgogi i wneud yn siŵr ei fod yn hapus, heb deimladau negyddol fel ofn, gofid neu rwystredigaeth. Ewch i weld eich ci'n rheolaidd, siarad a chwarae ag e' a gwneud yn siŵr ei fod yn iawn. Os ydych yn cadw mwy nag un ci gyda'i gilydd, mae'n rhaid iddyn nhw gyd-dynnu. Gofalwch fod gan bob ci ddigon o le i fod ar ei ben ei hun os dyna'i ddymuniad a bod digon o adnoddau, fel gwely, bwyd a dŵr a phowlenni, fel nad oes angen cystadlu.

1.16 Cofiwch hefyd y gall cŵn sy'n cael eu cadw y tu allan ymateb i olygfeydd a synau nad ydynt fel arfer yn eu gweld na'u clywed yn y tŷ. Gallai'ch ci gyfarth, udo neu lefain am gyfnod hir os nad oes ganddo unrhyw beth i'w wneud, os oes ofn arno neu os oes rhywbeth yn ei boeni. Yn ogystal â bod yn anhapus ac yn fwy tueddol i ddianc, gallai'ch ci fod yn niwsans i'ch cymdogion. Os oes angen cyngor arnoch ar sut i reoli problemau o'r fath, dylech gael gair â'ch milfeddyg neu berson cymwys arall.

Hylendid

1.17 Rhan bwysig o greu amgylchedd addas yw sicrhau ei fod yn ddiogel a glân. Cliriwch ar ôl eich ci gartref a thaflwch unrhyw faw yn y bin (neu system addas arall) bob dydd, yn enwedig os ydy'r ci'n byw gyda phlant. Gofalwch fod unrhyw ddiheintydd rydych yn ei ddefnyddio yn ddiogel ar gyfer anifeiliaid anwes. Yn ogystal â chadw ei le'n lân, mae diheintydd yn rhwystro clefydau rhag lledaenu.

Peryglon

1.18 Mae cŵn, a chŵn bach yn enwedig, yn twrio ym mhopeth gan fwyta pethau sy'n beryglus neu'n wenwynig. Dyma enghreifftiau:

- Mae resins, cyrens a siocled yn wenwyn i gŵn. Fe welwch restr lawn ar wefan Cymdeithas Milfeddygon Prydain (dolen yn Atodiad 2). Mae'n bwysig eu cadw o'u gafael bob amser.

- Mae llawer o blanhigion tŷ a gardd yn wenwyn i gŵn (gweler Atodiad 2 am ddolenni i wefannau sy'n rhestru planhigion gwenwynig). Dylech osgoi cadw planhigion gwenwynig neu rhowch nhw lle na all eich ci gael gafael arnyn nhw.
- Cemegau gwenwynig. Gall ci yfed neu fwyta cemegau gwenwynig trwy ddamwain neu am ei fod yn hoffi'r blas. Dylech gadw cemegau o'r fath o afael eich ci a glanhau ar eich ôl ar unwaith os ydych yn eu sarnu. Mae cemegau gwenwynig cyffredin y gall cŵn gael atyn nhw yn cynnwys gwenwyn lladd llygod mawr, gwenwyn lladd malwod a gwrthrewydd.
- Moddion pobl ac anifeiliaid eraill. Mae'n bwysig mai dim ond moddion sydd wedi'i roi iddo gan neu ar gyngor eich milfeddyg sy'n cael ei roi i gi.
- Ffenestri a balconïau agored.

Dylech wastad holi'ch milfeddyg ar unwaith os ydych yn credu bod eich ci wedi bwyta neu wedi dod i gysylltiad â rhywbeth allai fod yn niweidiol.

Teithio

1.19 Mae cŵn yn cael eu cario'n aml mewn cerbydau. Gofalwch nad yw'ch ci'n rhydd pan fydd yn cael ei gario yn y car. Os bydd damwain neu symudiad sydyn ac annisgwyl, gall ci rhydd gael anaf difrifol ac anafu teithwyr eraill. Bydd harnais diogelwch, i'w ddefnyddio'n benodol mewn car, neu gawell ddiogel wedi'i hadeiladu at y diben o faint digonol ac wedi'i hawyru'n dda, yn cadw'ch ci'n llonydd. Fodd bynnag, os ydych yn defnyddio harnais diogelwch neu gawell, dylech sicrhau bob amser nad yw'r ci yn llygad yr haul nac ar bwys y gwresogydd.

1.20 Cynlluniwch unrhyw deithiau hir yn ofalus rhag ichi amharu'n ormodol ar drefn fwydo'ch ci. Rhag iddo fynd yn sâl wrth deithio, peidiwch â'i fwydo'n syth cyn teithio. Dylai gael cyfle rheolaidd i gael dŵr a gwneud ei fusnes.

1.21 Peidiwch byth â gadael eich ci ar ei ben ei hun yn y car, hyd yn oed ar ddiwrnod sy'n ymddangos yn ddiwrnod mwyn. Gall y cerbyd fynd yn dwym/boeth iawn yn gyflym iawn ac achosi strôc gwres neu farwolaeth a gallech gael eich erlyn am greulondeb.

Adran 2: Deiet

2.1 Rhaid bod gan eich ci ddŵr glân ffres mewn powlen lân addas drwy'r amser. Os ydych yn mynd oddi cartref, gofalwch fod dŵr glân ar gael ar gyfer y ci. Ewch â dŵr gyda chi os oes angen. Mae hyn yn hanfodol i bob ci oni bai bod eich milfeddyg yn dweud fel arall. Er nad yw'ch ci efallai'n yfwr trwm fel arfer, bydd angen mwy o ddŵr arno mewn tywydd twym neu os ydych yn ei fwydo â bwyd sych. Dylech gadw golwg ar faint o ddŵr mae'ch ci yn ei yfed. Gall gwahaniaethau fod yn arwydd o salwch.

Deiet Cytbwys

2.2 Mae'n hanfodol rhoi deiet maethlon a chytbwys ym mhob cam o'i fywyd i'ch ci i'w gadw'n iach.

2.3 Mae angen deiet sy'n cynnwys protein, braster, carbohydrad, fitaminau a mwynau arno. Mae'r rhan fwyaf yn cael y deiet hwnnw ar ffurf bwyd masnachol parod. Wrth fwydo bwyd parod, darllenwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a chadw atyn nhw.

2.4 Os oes gennych yr wybodaeth arbenigol i greu deiet cytbwys, gallech baratoi bwyd cartref iddo yn lle bwyd parod. Yn wahanol i gathod, mae cŵn yn bwyta pethau heblaw cig, felly mae'n syniad da ychwanegu llysiau at eu bwyd. I allu paratoi bwyd cartref addas, mae angen dealltwriaeth dda a manwl o anghenion maeth eich ci. Os ydych am roi bwyd cartref i'ch ci ond nad oes gennych yr wybodaeth arbenigol, holwch eich milfeddyg neu arbenigwr gofal anifeiliaid anwes.

2.5 Bydd y deiet sydd ei angen ar eich ci'n newid dros ei oes ac ar adegau eraill hefyd e.e. pan fydd yn dost/sâl. Mae'n bwysig bod deiet eich ci yn rhoi'r maeth sydd ei angen arno, o ystyried ei oed, ei iechyd, ei gyflwr magu, cyflwr ei gorff, ei bwysau a lefel ei fywiogrwydd. Os nad ydych yn siŵr, holwch eich milfeddyg neu'ch arbenigwr gofal anifeiliaid anwes.

2.6 Mae'n bwysig bod eich ci yn cael y deiet cywir a'r cyfrannau cywir o bob cynhwysyn. Os oes gennych fwy nag un ci, mae'n bwysig bod pob un yn cael yn ôl ei angen.

2.7 Rhowch lonydd i'ch ci pan fydd yn bwyta.

Pwysau iach

2.8 Peidiwch â rhoi mwy o fwyd i'ch ci nag sydd ei angen arno. Mae gorfwyta yn arwain at ordewdra. Mae'r cyfarwyddiadau ar becyn eich bwyd cŵn yn ganllaw da neu holwch eich milfeddyg neu'ch arbenigwr gofal anifeiliaid anwes os nad ydych yn siŵr. Ni all ci tew fod yn gi iach a gordewdra yw'r broblem fwydo fwyaf cyffredin y mae milfeddygon yn ei gweld. Os bydd ci yn bwyta gormod ac os na fydd yn cael digon o ymarfer corff, bydd yn magu pwysau a bydd ansawdd a hyd ei fywyd yn dioddef. Gall arwain at broblemau iechyd megis clefyd y galon a diabetes. Cofiwch os ydych yn defnyddio bwyd i wobrwyo'ch ci wrth ei hyfforddi, gallech roi gormod o fwyd iddo heb feddwl. Bydd angen i chi felly newid faint o fwyd y mae'n ei gael amser bwyd.

2.9 Dylech wybod faint y dylai'ch ci bwyso a cheisio cadw ei gorff yn ei gyflwr mwyaf delfrydol ym mhob cam o'i fywyd. Gall newid yn ei arferion bwyta neu yfed fod yn arwydd nad yw'ch ci'n dda – holwch eich milfeddyg.

Cyflwr y Corff

2.10 Dysgwch beth yw cyflwr corfforol delfrydol eich ci yn ôl ei oed. Mae'r diagram yn dangos sut mae rhoi sgorio cyflwr y corff. Os ydych am wybod mwy, holwch eich milfeddyg.

RHY DENAU

1 Modd gweld asennau, asgwrn cefn, asgwrn y pelfis ac esgyrn eraill yn rhwydd o bell. Dim bloneg i'w weld ar y corff. Diffyg cyhyrau'n amlwg.

2 Modd gweld asennau, asgwrn cefn ac asgwrn y pelfis yn rhwydd. Dim bloneg yn amlwg. Rhai esgyrn eraill yn amlwg. Diffyg rhai cyhyrau.

3 Hawdd teimlo'r esgyrn ac efallai'n hawdd eu gweld. Dim bloneg i'w deimlo arnynt. Brig asgwrn y cefn i'w weld. Asgwrn y pelfis yn amlwg. Croen yn dynn am y wasg a'r bol.

DELFRYDOL

4 Asennau'n hawdd eu teimlo gydag ychydig o orchudd o floneg. Y wasg yn hawdd ei gweld o edrych i lawr arni. Croen yn dynn am y bol.

5 Modd teimlo'r asennau heb ormod o floneg drostynt. Y wasg i'w gweld y tu ôl i'r asennau o edrych i lawr arni. Croen yn dynn am y bol o edrych arno o'r ochr.

RHY DRWM

6 Modd teimlo'r asennau gydag ychydig yn ormod o floneg drostynt. Modd gweld y wasg o edrych i lawr arni ond nid yw'n amlwg. Croen yn dynn am y bol.

7 Modd teimlo'r asennau ag ymdrech; trwch o floneg drostynt. Bloneg amlwg o gwmpas y lwynau a bôn y gynffon. Dim gwasg neu nid yw'n amlwg. Y croen efallai'n dynn o dan y bol.

8 Dim modd teimlo'r asennau o dan drwch o floneg neu dim ond o wasgu'n galed. Trwch o floneg o gwmpas y lwynau a bôn y gynffon. Dim gwasg. Dim croen tynn o dan y bol. Chwydd y bol o bosib yn amlwg.

9 Trwch anferth o floneg ar y thoracs, asgwrn y cefn a bôn y gynffon. Dim gwasg na chroen tynn o dan y bol. Bloneg ar y coesau a'r gwddf. Chwydd amlwg yn y bol.

Diolch i Purina Pet Care Team am y diagram

Trefn fwydo

2.11 Bydd nifer y prydau bwyd y dydd yn dibynnu ar oed y ci a faint o ymarfer corff mae'n ei gael. Fel rheol, mae'n well rhoi dau bryd o fwyd i'ch ci bob dydd oni bai bod eich milfeddyg yn dweud yn wahanol.

2.12 Os ydych yn bwydo'ch ci ddwywaith y dydd, gallwch rannu'r bwyd yn ddwy gyfran gyfartal, neu'n draean a dau draean.

2.13 Os oes gennych fwy nag un ci mae'n bwysig bod pob un yn cael bwyta mewn llonyddwch.

2.14 Gall cynnydd annisgwyl neu golli awydd bwyta fod yn arwyddion o salwch. Holwch eich milfeddyg os bydd y broblem yn para.

Anghenion deietegol eraill

2.15 Mae'n ddigon posibl y bydd angen bwyd a threfn fwydo wahanol ar eist torrog, geist sy'n bwydo cŵn bach, cŵn hen, ifanc neu dost/sâl. Er enghraifft, mae angen bwydo ci bach yn amlach na chi llawndwf iach. Eich milfeddyg yw'r person gorau i'ch cynghori ynghylch beth sydd ei angen ar eich ci o dan yr amgylchiadau hyn.

2.16 Peidiwch â rhoi bwyd i'ch ci awr cyn neu awr ar ôl ymarfer corff caled gan y gall hynny arwain at fol chwyddedig neu broblemau meddygol difrifol posibl eraill.

2.17 Os bydd angen newid deiet eich ci, gwnewch hynny'n raddol, dros gyfnod o ryw wythnos, oni bai bod eich milfeddyg yn dweud wrthych yn wahanol.

Adran 3: Ymddygiad

3.1 Mae'r adran hon yn cynnig cyngor ar ymddygiad eich ci.

Profiadau cynnar

3.2 Yr amser gorau i gi bach ddysgu am gŵn eraill, pobl ac anifeiliaid yw pan fydd yn ifanc iawn. Cymdeithasoli yw'r gair am hyn. Mae'n bwysig bod cŵn bach yn cael cyfleoedd i gymdeithasoli pan fyddwn nhw rhwng 3 i 14 wythnos oed er mwyn tyfu'n gŵn hapus a normal. Bydd diffyg cyfleoedd i gymdeithasu â chŵn, pobl neu anifeiliaid eraill, neu brofiadau gwael wrth gymdeithasu, yn gallu arwain at broblemau ymddygiad. Mae'r cyfnod pwysig hwn yn cynnwys cyfnod rhoi'r brechiad cynta i'ch ci. Bydd eich milfeddyg yn dweud wrthych pryd y bydd hi'n ddiogel i'ch ci bach gymysgu â chŵn ac anifeiliaid eraill.

3.3 Cyflwynwch eich ci bach i amrywiaeth o synau, gwrthrychau a gweithgareddau yn ei fyd ond cofiwch wneud hynny'n ofalus ac mewn ffordd bositif. Ymgynefino yw'r gair am hyn. Os bydd ci bach yn dysgu'n gynnar nad yw'r pethau hyn yn fygythiad, bydd yn fwy tebygol o fod yn hapus yn eu gweld a'u clywed am weddill ei fywyd. Ond mae'n bwysig peidio â llethu na dychryn eich ci bach, a dylech bob amser ofalu bod ffordd iddo ddianc oddi wrth bethau sy'n codi ofn arno. Gall gorfodi'ch ci bach i gymysgu ag eraill arwain at broblemau ymddygiad felly mae'n bwysig gofalu bod pob sefyllfa mor rhwydd a phositif â phosibl fel ei fod am ymchwilio a chymdeithasu.

3.4 Mae angen cyfnodau hir o orffwys ar gi bach i ddatblygu corff a natur iach. Peidiwch â tharfu ar gi sy'n cysgu; gadewch iddo ddihuno yn ei amser ei hunan.

3.5 Holwch eich milfeddyg neu berson cymwys arall ynghylch sut i ofalu am gi bach newydd.

Hyfforddiant

3.6 Mae cŵn yn dysgu gydol eu bywyd ac ym mhob sefyllfa. Mae hyfforddiant ffurfiol yn bwysig, yn enwedig i gi ifanc. Dylech ddechrau'r hyfforddiant gyda thasgau syml fel dysgu'ch ci i adnabod ei enw ac i ddod atoch chi pan fyddwch yn ei alw. Mae'n bwysig bod yn gyson a phositif. Dylech wobrwyo ymddygiad da gyda rhywbeth y mae'ch ci yn ei fwynhau (megis chwarae, bwyd neu faldod). Mae'n bwysig eich bod yn ei wobrwyo ar unwaith.

3.7 Mae'n well hyfforddi'ch ci am gyfnodau byr yn aml. Manteisiwch ar bob cyfle i ganmol eich ci am ymddygiad da. Bydd ci yn llai tebygol o wneud pethau drwg os ydych yn ei anwybyddu pan fydd yn gwneud y pethau drwg.

3.8 Gall dosbarthiadau hyfforddi da ddangos dulliau 'hyfforddi trwy wobrwyo' ichi sy'n dysgu'ch ci i ymddwyn yn dda ac sy'n atal neu'n newid ymddygiad drwg. Gall 'hyfforddi trwy gosbi' wneud i'r ci ddioddef heb eisiau a'i ddrysu. Mae coleri sy'n gallu rhoi sioc drydanol wedi'u gwahardd yng Nghymru. Darllenwch Atodiad 2 – Ffynonellau Gwybodaeth am ragor o wybodaeth am hyfforddi.

Ymarfer corff

3.9 Bydd yr ymarfer corff sydd ei angen ar eich ci yn amrywio yn ôl ei oedran, ei iechyd a'i frîd. Er enghraifft, efallai y bydd yn well gan eich ci fywyd tawelach wrth iddo heneiddio, neu gallai'ch milfeddyg eich cynghori er lles ei iechyd i beidio â mynd â'ch ci am dro mor aml ac ichi ddefnyddio teganau yn lle ymarfer corff i symbylu ei feddwl. Ond oni bai bod eich milfeddyg yn dweud fel arall, bydd angen ymarfer corff rheolaidd ar eich ci, o leiaf unwaith bob dydd, a chyfle i redeg, chwarae, chwilota a thwrio. Bydd hyn yn cadw'ch ci'n ffit ac yn fywiog yn ei gorff a'i feddwl.

3.10 Mae angen ymarfer corff ar gŵn bach a llawer o bethau i ysgogi'r meddwl, ond am gyfnodau bywiog byr yn unig. Ond gall gorweithio ci sy'n tyfu wneud drwg i'w gymalau. Os oes gennych unrhyw amheuon ynghylch yr ymarfer corff sydd ei angen ar eich ci bach, holwch eich milfeddyg am gyngor.

3.11 Nid yw'ch ci bach wedi'i ddiogelu'n llawn rhag clefydau ar ôl ei frechiad cyntaf. Gofynnwch i'ch milfeddyg ddweud wrthych pryd y bydd wedi'i ddiogelu'n llawn a than hynny, peidiwch â'i adael allan heblaw i ardd breifat neu le caeedig.

3.12 Rydych yn torri'r gyfraith os ydych yn gadael i'ch ci fod allan o reolaeth mewn ffordd beryglus; yn ogystal â thraffig a da byw, gall cŵn eraill fod yn berygl. Peidiwch â thynnu'r ci oddi ar ei dennyn nes eich bod yn siŵr ei bod yn ddiogel a chyfreithlon ichi wneud hynny. Mae'n bwysig eich bod yn dysgu'ch ci pan na fydd ar ei dennyn i ddod atoch chi pan fyddwch yn ei alw. Hyd yn oed pan na fydd ar ei dennyn, dylai'ch ci fod o dan eich reolaeth.

3.13 Gofalwch nad yw coler/harnais eich ci'n rhy dynn nac yn rhy llac. Gwnewch yn siŵr ei fod yn gyfforddus ac nad yw'n ei boeni nac yn gwneud dolur iddo. Nid yw cadwyni tagu na choleri gwasgu a phrocio yn dderbyniol gan eu bod yn achosi poen a/neu anaf.

3.14 Peidiwch â mynd â'ch ci am dro pan fydd y dydd ar ei fwyaf twym/poeth. Ben bore neu fin nos yw'r adegau gorau i fynd â'ch ci am dro yn ystod cyfnodau o dywydd twym.

Chwarae a Chymysgu

3.15 Mae cŵn yn anifeiliaid cymdeithasol, chwareus a deallus â meddyliau bywiog – mae angen ysgogi eu meddyliau er mwyn eu cadw'n hapus. Mae angen felly iddyn nhw gymysgu a chwarae â phobl a chŵn eraill, cael teganau i chwarae â nhw neu amgylchedd â llawer o gyfleoedd ynddo i chwilota a thwrio. Ond gofalwch peidio â llethu'ch ci. Gallwch roi cyfran o'i fwyd sych i'ch ci trwy 'fwydwr pos' (puzzle feeder) sy'n rhyddhau bwyd yn raddol ac sy'n ysgogi meddwl eich ci pan fydd yn y tŷ.

3.16 Mae chwarae â'ch ci gan ddefnyddio teganau diogel ac addas yn ffordd dda o'i ddiddanu. Mae'n bwysig peidio â gadael eich ci ar ei ben ei hun gyda theganau bregus, yn enwedig os yw'n un am gnoi'n frwd. Mae perygl iddo lyncu darnau bach a datblygu problemau treulio difrifol. Cadwch olwg ar ei deganau i wneud yn siŵr nad ydyn nhw'n frwnt neu wedi torri. Drwy newid ei deganau'n aml, ni fydd yn diflasu ar degan unigol.

Adnabod a Deall Ymddygiad

3.17 Mae cŵn ym teimlo amrywiaeth o emosiynau gan gynnwys hapusrwydd, ofn, gofid a dicter. Mae'n bwysig felly'ch bod yn adnabod yr arwyddion y mae ci'n eu defnyddio i ddangos ei deimladau. Gall unrhyw newid yn ei ymddygiad fod yn arwydd ei fod yn anhapus neu'n sâl. Gall arwyddion o stres amrywio o gi i gi, ond gallan nhw gynnwys:

- anadlu'n drwm, glafoerio, llyfu gwefusau;
- methu â bod yn llonydd, a cherdded yn ôl ac ymlaen;
- gwneud ei fusnes yn y tŷ;
- cyfarth (oni bai bod rheswm da o safbwynt y ci);
- mynnu cael sylw trwy'r amser – gan bobl ac anifeiliaid anwes eraill;
- cuddio a swatio;
- gostwng ei glustiau a'i gynffon.

Gall rhai o'r arwyddion hyn fod yn arwyddion o salwch neu boen a dylech gysylltu â'ch milfeddyg os ydych yn poeni.

3.18 Gofalwch fod gan eich ci le diogel i guddio ynddo pan fydd ofn arno.

3.19 Dylech siarad â'ch milfeddyg os nad ydych yn gwybod beth i'w wneud os bydd ymddygiad eich ci'n newid yn sydyn neu os yw'n ymateb yn od neu'n troi'n ofnus neu'n gas yn sydyn.

Gwneud ei fusnes

3.20 Mae angen i gi allu mynd o'i le byw i le addas i wneud ei fusnes, o leiaf unwaith bob ychydig o oriau.

3.21 Mae ei ddysgu i wneud ei fusnes yn rhan hanfodol o'i addysg gynnar. Dangoswch le addas tu allan iddo pan fydd yn fach, a'i wobrwyo am wneud ei fusnes ynddo a dysgith yn gyflym i'w ddefnyddio. Peidiwch â rhoi pryd o dafod i'ch ci na'i gosbi pan fydd yn cael damwain gan y gall hyn ei wneud yn ofnus a chreu problemau nes ymlaen. Gallwch fynd i lawer lle am gyngor ar sut i hyfforddi'ch ci i wneud ei fusnes (gweler Atodiad 2 – Ffynonellau Gwybodaeth). Bydd ambell gi yn piso fel rhan o'i gyfarchiad ichi. Os bydd hyn yn para, siaradwch ag arbenigwr ymddygiad.

3.22 Os nad yw wedi'i eithrio (gweler Atodiad 1), mae dyletswydd gyfreithiol ar geidwad ci, neu'r person sy'n gyfrifol amdano, i glirio ar ôl y ci hwnnw (gan ddefnyddio 'rhaw baw' neu gwdyn plastig) pan fydd mewn lle cyhoeddus. O dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, gall Awdurdod Lleol gyflwyno Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus all fynnu pob math o reolau gan gynnwys rheolau ychwanegol ar berchnogion cŵn. Gofalwch eich bod yn gwybod beth yw'r rheolau yn yr ardal ble rydych chi'n mynd â'ch ci am dro.

Adran 4: Cwmni

4.1 Mae'r adran hon yn cynnig cyngor ichi ar sut i roi cwmni addas i'ch ci.

Gall pob ci frathu o dan rai amgylchiadau. Peidiwch byth â gadael eich ci felly ar ei ben ei hun gyda phlant ac anifeiliaid eraill.

Ei berthynas â Chŵn, Anifeiliaid Eraill a Phobl

4.2 Dysgwch eich ci sut i ymddwyn yn briodol mewn sefyllfaoedd cymdeithasol amrywiol trwy ei gyflwyno'n ofalus ac yn bositif i bobl wahanol ac anifeiliaid eraill gan gynnwys, er enghraifft, cŵn cyfeillgar. Mae'n bosib y bydd cŵn sydd wedi cael profiadau negyddol yn ymateb yn ddrwg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Sylwch sut mae'ch ci yn ymateb i bobl anghyfarwydd a chŵn ac anifeiliaid eraill ac ymatebwch chithau yn ôl y gofyn.

4.3 Os ydy'ch ci yn ffein wrth gŵn eraill, dylech roi digonedd o gyfleoedd iddo chwarae â chŵn ffein eraill. Dylai'ch ci gael cyfleoedd rheolaidd i gymysgu â phobl.

4.4 Gofalwch fod pawb sy'n ymwneud â'ch ci yn gwneud hynny mewn ffordd garedig, addfwyn a chyson. Peidiwch â gadael i bobl godi ofn arno na'i boeni.

4.5 Dylai oedolion a phlant sydd ddim yn gyfarwydd â chŵn ddysgu na ddylech byth fynd at gi sy'n gorffwys, cysgu, bwyta, chwarae â hoff degan neu sy'n dost/sâl. Ddylech chi ddim gorfodi ci i chwarae na'i gario o gwmpas. Dylech ofalu bod gan eich ci le tawel y gall fynd iddo i orffwys neu guddio heb gael ei aflonyddu.

Oddi Cartref

4.6 Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod yna rywun ar gael i ofalu am eich ci pan fyddwch chi oddi cartref ac yn methu mynd â'ch ci gyda chi. Gallai'r rhywun hwnnw aros yn eich cartref a gofalu am eich ci yno, gallwch fynd â'ch ci i lety cŵn neu fynd â'ch ci i aros gyda ffrind neu berthynas sy'n gwybod sut i ofalu amdano. Pan fydd rhywun arall yn gofalu am eich ci, hwnnw sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am ei les ac mae angen sicrhau ei fod yn deall ei anghenion ac unrhyw ofynion arbennig sydd ganddo.

4.7 Mae cŵn yn anifeiliaid cymdeithasol ac yn mwynhau cwmni pobl. Mae'r amser y gallwch adael ci ar ei ben ei hun yn amrywio yn ôl ei oed, ei brofiadau, sefyllfa ei gartref ac ati. Mae ambell gi yn diflasu ar ei ben ei hun a bydd cŵn eraill nad ydyn nhw wedi cael eu dysgu sut i ymdopi ar eu pen eu hunain neu sydd wedi cael profiad cas yn mynd i boeni, hyd yn oed os ydyn nhw ond yn cael eu gadael am gyfnod byr. Mae llawer o gymdeithasau lles anifeiliaid yn argymell na ddylech adael eich ci am fwy na phedair awr.

Nifer y cŵn

4.8 Dylai'r perchennog ystyried anghenion pob ci unigol, faint o le sydd ganddo a beth fydd effaith y ci ar ei amser ac ar ei arian. Mae'n bwysig hefyd ystyried a fydd y ci yn debygol o dderbyn cŵn ac anifeiliaid eraill ar ei diriogaeth. Gall eich milfeddyg neu'r arbenigwr gofal anifeiliaid anwes eich cynghori.

4.9 Os ydych am gadw nifer o gŵn gyda'i gilydd, gofalwch fod digon o le iddyn nhw allu osgoi ei gilydd os oes angen a bod gennych ddigon o fowlenni, teganau, gwelyau ac ati ar gyfer pob ci rhag iddyn nhw gystadlu â'i gilydd neu warchod eu pethau.

4.10 Mae gan rai Awdurdodau Lleol reolau ynghylch faint o gŵn y caiff un person eu cerdded ar y tro. Dylai perchenogion holi'r Awdurdod Lleol i wneud yn siŵr eu bod yn cadw at y rheolau.

Adran 5: Iechyd

5.1 Mae'r adran hon yn rhoi cyngor ar iechyd eich ci.

Gofal iechyd

5.2 Mae iechyd da yn hanfodol i les eich ci. Milfeddygfa eich ci yw'r lle gorau i'ch cynghori ar sut i ofalu am iechyd eich ci, fel ei niwtro, ei frechu a rheoli ei baraseitiaid mewnol ac allanol, yn ogystal ag unrhyw broblemau iechyd allai fod ganddo. Dylech holi beth yw trefniadau'ch milfeddygfa wedi iddi gau.

5.3 Gall gofalu am iechyd a lles eich ci fod yn fater drud iawn a dylech ystyried sut y byddwch chi am ysgwyddo'r costau. Efallai y byddwch am brynu yswiriant oddi wrth un o'r cwmnïau niferus sy'n ei werthu.

5.4 Gan mai chi sy'n gyfrifol am iechyd eich ci, rhaid ichi ystyried y canlynol:

- Atal clefydau. Mae llawer o frechlynnau ar gael sy'n diogelu cŵn rhag clefydau pwysig, rhai ohonyn nhw'n angheuol.
- Atal paraseitiaid. Rhaid trin eich ci'n rheolaidd rhag llyngyr, chwain a throgod. Mae'n arbennig o bwysig gwneud yn siŵr fod y driniaeth ar gyfer cŵn sy'n byw yng nghefn gwlad neu sy'n ymweld â chefn gwlad yn rheolaidd yn delio â llyngyr rhuban. Mae chwain a phroblemau croen heb eu trin yn gallu achosi dioddefaint mawr. Mae llawer o gynnyrch trin chwain a llyngyr ar gael a gall eich milfeddyg ddweud pa rai sydd fwyaf addas i'ch ci chi.
- Rhoi deiet cytbwys ac iach (gweler adran 2).
- Rhoi'r amgylchedd iawn sy'n ddiogel rhag anaf ac afiechyd (gweler adran 1).
- Ymateb yn gyflym os bydd eich ci'n dost/sâl, wedi cael anaf neu'n dechrau ymddwyn yn rhyfedd.
- Cadw ei ddannedd mewn cyflwr da.
- Mae'n bwysig dilyn y mesurau iechyd angenrheidiol os ydych am fynd â'ch ci dramor. Mae yna glefydau y gwelwch dramor nad ydyn nhw'n bod ym Mhrydain. Cewch gyngor defnyddiol ar hyn yn "Ffynonellau Gwybodaeth Defnyddiol" yn Atodiad 2.

Salwch

5.5 Mae'n bwysig adnabod yr arwyddion bod eich ci'n dost/sâl a'ch bod yn cysylltu â'ch milfeddyg yn syth pan fyddwch yn eu gweld. Gall arwyddion o salwch gynnwys:

- cyfogi a dolur rhydd;
- rhwymedd neu drafferth i wneud dŵr;
- magu neu golli pwysau mawr yn sydyn;
- colli archwaeth;
- yfed mwy neu lai nag arfer;
- dim egni;
- chwyddiadau anarferol;
- salwch croen e.e. colli blew;
- cloffni;
- peswch;
- diffyg anadl;
- gwaedu anarferol;
- llid o'r llygaid neu o'r clustiau;
- arwyddion o boen – sensitifrwydd i gyffyrddiad.

Nid yw'r rhestr hon yn un llawn ond os gwelwch newid yn ymddygiad eich ci, ystyriwch y posibilrwydd y gallai fod yn sâl. Os ydych yn credu bod rhywbeth yn bod ar eich ci, holwch eich milfeddyg. Gallai peidio â mynd at y milfeddyg yn brydlon arwain at ddioddefaint diangen ac mae hynny'n drosedd.

Cael ci

5.6 Mae cŵn yn amrywio'n aruthrol o ran eu cyrff e.e. siâp, maint, blewyn ac ati ac o ran nodweddion eraill hefyd e.e. ymddygiad a natur. Ymchwiliwch i'r mathau o gŵn sydd ar gael a dewiswch yr un sy'n cyfateb orau i'ch amgylchiadau chi. Mae llawer o ffynonellau cyngor da ar gael gan gynnwys y rheini yn yr adran 'Ffynonellau Gwybodaeth' ar ddiwedd y cod hwn.

5.7 Mae llawer o gŵn bach a llawndwf yn cael eu hysbysebu ar hysbysebion ar-lein. Mae'n bwysig iawn eich bod yn ymchwilio'n drylwyr cyn prynu ci sy'n cael ei hysbysebu. Mae gan y Grŵp Cynghori ar Hysbysebu Anifeiliaid Anwes set o Safonau Gofynnol y dylai pob hysbyseb eu bodloni a dylai hynny fod yn fan cychwyn i'ch ymchwil. Gall y cymdeithasau lles a restrir yn y "Ffynonellau Gwybodaeth Ddefnyddiol" yn Atodiad 2 y cod roi cyngor ichi cyn prynu ci.

5.8 Mae llawer o ffactorau gan gynnwys yr amgylchiadau y cafodd eich ci eu magu ynddyn nhw neu ei gadw ynddyn nhw wedi hynny, yn dylanwadu ar ei iechyd a'i les yn y dyfodol. Nid yw pob ci'n cael ei fagu mewn ffordd sy'n rhoi'r sylw priodol i'w iechyd neu les corfforol ac ymddygiadol. Mae'n well cael cyngor gan eich milfeddyg neu fudiad perthnasol (gweler Atodiad 2) ynghylch ble i gael ci.

5.9 Dylech chwilio gymaint ag y medrwch a yw rhieni'r ci wedi cael eu sgrinio rhag cyflyrau etifeddol sy'n gyffredin yn eu brîd (e.e. dysplasia'r glun neu cyflyrau etifeddol ar y llygaid), a gwneud yn siŵr eich bod yn gallu cwrdd â'i anghenion. Mae'n debygol y bydd angen gofal arbennig ar gi sydd â chyflyrau wedi'u hetifeddu ac efallai y bydd angen triniaeth gostus arno.

5.10 Os ydych chi'n prynu ci bach, dylech bob amser ofyn am gael gweld y fam a'i frodyr a'i chwiorydd a hynny i weld sut maen nhw'n ymddwyn â'i gilydd. Byddai'n dda hefyd cael gweld y tad. Mae hyn yn bwysig am nifer o resymau: gall roi syniad ichi beth fydd natur a maint y ci wedi iddo dyfu. Cofiwch, ni fydd hyn yn debygol o fod yn bosib mewn llochesi cŵn ac ati.

5.11 Os ydych yn dewis cael ci bach, ffordd dda o wneud yn siŵr bod yr ystyriaethau pwysig wedi'u bodloni yw trwy 'Gontract Ci Bach'. Cewch weld enghreifftiau gan gymdeithasau lles yn y "Ffynonellau Gwybodaeth Ddefnyddiol" yn Atodiad 2 y cod.

5.12 Rhaid i gŵn bach sy'n cael eu geni ar safle bridiwr trwyddedig aros ar y safle hwnnw tan eu bod o leiaf 56 niwrnod (wyth wythnos) oed. Rhaid rhoi microsglodyn arnyn nhw erbyn eu bod yn wyth wythnos oed o dan Reoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015 (gweler Atodiad 1). Y bridiwr ddylai fod y ceidwad cofrestredig cyntaf a dylech gofrestru'ch hun fel y perchennog newydd ar ôl ichi brynu'r ci bach. Gofalwch hefyd fod eich manylion yn cael eu cadw'n gyfoes os byddwch yn newid eich rhif ffôn neu'ch cyfeiriad ac ati.

5.13 Ewch â'ch ci newydd at filfeddyg am gyngor cyffredinol ar ofalu am ei iechyd o fewn ychydig ddiwrnodau ar ôl ichi ddod ag e' gartref. Dilynwch gyngor eich milfeddyg ynghylch gofalu'n ddi-dor am ei iechyd ar hyd ei fywyd.

Cribo a golchi

5.14 Bydd angen mwy o sylw ar flew ambell gi a bydd angen ei gribo pob dydd rhag iddo fynd yn blethau a chlymau. Fodd bynnag, mae angen cribo blew pob ci yn rheolaidd a'i olchi o bryd i'w gilydd i gadw ei groen a'i flew mewn cyflwr da. Bydd angen brws a chrib sy'n addas i'r math o flew sydd ar eich ci. Holwch eich milfeddyg neu'ch arbenigwr gofal anifeiliaid anwes os nad ydych yn siŵr ynghylch cribo'ch ci.

Bridio a Niwtro

5.15 Dylech ystyried niwtro'ch ci. Yn ogystal ag osgoi holl broblemau cael cŵn bach diangen, mae yna fanteision eraill hefyd. Manteision fel osgoi heintiau a chanserau ar y rhannau fydd yn cael eu tynnu e.e. heintiau'r groth a chanser yr ofarïau mewn geist a chanser y ceilliau mewn cŵn gwryw. Gallai fod yna fanteision o ran ymddygiad eich ci hefyd. Ond mae yna risgiau, a rhaid eu hystyried hwythau hefyd. Risgiau fel yr heintiau all ddigwydd wrth roi llawdriniaeth ac mae perygl y gall y ci fynd yn dew, cael trafferth rheoli ei ddŵr a datblygu rhai mathau o ganser. Bydd y cydbwysedd rhwng manteision a niweidiau posib yn amrywio o gi i gi a dylech holi'ch milfeddyg. Rhestrir ffynonellau cyngor eraill yn Atodiad 2.

5.16 Nid ar chwarae bach y mae penderfynu un ai i fagu o gi/gast neu i'w niwtro. Rhaid ystyried iechyd a lles yr anifail unigol. Cyn bridio, dylech ystyried iechyd y rhieni, unrhyw broblemau etifeddol, sut y byddech chi'n sicrhau bod y cŵn bach yn cael cymdeithasoli ac ymgynefino a sut y byddwch yn cael hyd i gartrefi addas iddyn nhw. Os ydych chi am fridio, rhaid meddwl hefyd am iechyd a lles y cŵn bach. Mae'r penderfyniad i fridio yn ymrwymiad aruthrol ac ni ddylech fentro heb feddwl yn galed iawn. Dylech wneud popeth yn eich gallu i osgoi unrhyw fridio 'anfwriadol'.

5.17 Fel perchennog ci, dylech feddwl yn galed a chael yr holl ffeithiau cyn penderfynu p'un ai i fridio neu i niwtro'ch ci. Wedi'r cyfan, yn ogystal â bod yn gyfrifol am y penderfyniad ei hunan, bydd rhaid ichi hefyd ddelio â'r canlyniadau.

Y Dannedd

5.18 Dylech gadw golwg ar ddannedd eich ci yr un pryd â'i gribo. Argymhellir past a brwshys dannedd arbennig i gŵn at ddefnydd dyddiol ac maent ar gael yn gyffredinol gan filfeddygon a siopau anifeiliaid anwes. Gallech hefyd brynu deunyddiau cnoi arbennig a theganau i gadw dannedd a gymiau'ch ci yn iach.

Tagio

5.19 Mewn mannau cyhoeddus, rhaid i'ch ci wisgo coler a thag enw, oni bai ei fod wedi cael ei eithrio o dan Orchymyn Rheoli Cŵn 1992. Mae sawl math gwahanol o goler a harnais ar gael ac mae'n bwysig eich bod yn dewis coler sy'n ffitio'ch ci yn gywir. O dan y gyfraith (Gorchymyn Rheoli Cŵn 1992) mae'n rhaid i'r coler gynnwys tag gyda'ch enw a'ch cyfeiriad arno ac, os oes modd, rhif ffôn cyswllt.

5.20 Bydd angen rhoi microsglodyn ar eich ci wedi iddo gyrraedd ei wyth wythnos oed oni bai ei fod wedi'i eithrio o dan Reoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015. Rhaid ichi gofrestru'ch manylion ar gronfa ddata gymeradwy a rhaid ichi roi gwybod iddi pan fyddwch chi'n symud neu os yw'ch ci yn symud i gartref arall. Bydd sganio'r microsglodyn ar gi sydd ar goll neu wedi'i ddwyn yn helpu i'w gael yn ôl i'w berchennog. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ficrosglodion, holwch eich milfeddyg neu'ch arbenigwr gofal anifeiliaid anwes.

Beth i'w wneud os bydd eich ci yn mynd ar goll

5.21 Os ydy'ch ci ar goll, cysylltwch â'r gronfa ddata sydd wedi cofrestru'r microsglodyn. Dylech hefyd gysylltu â warden cŵn eich cyngor lleol. Byddai'n syniad da hefyd holi milfeddygfeydd, ysbytai anifeiliaid a chanolfannau ailgartrefu lleol, rhoi cofnod ar wefannau 'anifeiliaid ar goll' a rhoi posteri i fyny. Cofiwch, mae ci sy ar goll yn gallu crwydro'n bell.

Atodiad 1: Y Gyfraith

Deddf Lles Anifeiliaid 2006

Mae'r cod yn cyfeirio at yr adrannau canlynol o'r Ddeddf ac rydym yn eu nodi yma i'ch helpu. Mae adrannau perthnasol y Ddeddf yn cael eu dyfynnu isod yn y Saesneg gwreiddiol). Mae'r blwch llwyd yn crynhoi'r troseddau a'r cosbau perthnasol yn y Ddeddf.

3 Responsibility for animals

(1) In this Act, references to a person responsible for an animal are to a person responsible for an animal whether on a permanent or temporary basis.

(2) In this Act, references to being responsible for an animal include being in charge of it.

(3) For the purposes of this Act, a person who owns an animal shall always be regarded as being a person who is responsible for it.

(4) For the purposes of this Act, a person shall be treated as responsible for any animal for which a person under the age of 16 years of whom he has actual care and control is responsible.

4 Unnecessary suffering

(1) A person commits an offence if—

(a) an act of his, or a failure of his to act, causes an animal to suffer,

(b) he knew, or ought reasonably to have known, that the act, or failure to act, would have that effect or be likely to do so,

(c) the animal is a protected animal, and

(d) the suffering is unnecessary.

(2) A person commits an offence if—

(a) he is responsible for an animal,

(b) an act, or failure to act, of another person causes the animal to suffer,

(c) he permitted that to happen or failed to take such steps (whether by way of supervising the other person or otherwise) as were reasonable in all the circumstances to prevent that happening, and

(d) the suffering is unnecessary.

(3) The considerations to which it is relevant to have regard when determining for the purposes of this section whether suffering is unnecessary include—

(a) whether the suffering could reasonably have been avoided or reduced;

(b) whether the conduct which caused the suffering was in compliance with any relevant enactment or any relevant provisions of a licence or code of practice issued under an enactment;

(c) whether the conduct which caused the suffering was for a legitimate purpose, such as—

(i) the purpose of benefiting the animal, or

(ii) the purpose of protecting a person, property or another animal;

(d) whether the suffering was proportionate to the purpose of the conduct concerned;

(e) whether the conduct concerned was in all the circumstances that of a reasonably competent and humane person.

(4) Nothing in this section applies to the destruction of an animal in an appropriate and humane manner.

9 Duty of person responsible for animal to ensure welfare

(1) A person commits an offence if he does not take such steps as are reasonable in all the circumstances to ensure that the needs of an animal for which he is responsible are met to the extent required by good practice.

(2) For the purposes of this Act, an animal's needs shall be taken to include—

(a) its need for a suitable environment,

(b) its need for a suitable diet,

(c) its need to be able to exhibit normal behaviour patterns,

(d) any need it has to be housed with, or apart from, other animals, and

(e) its need to be protected from pain, suffering, injury and disease.

(3) The circumstances to which it is relevant to have regard when applying subsection (1) include, in particular—

(a) any lawful purpose for which the animal is kept, and

(b) any lawful activity undertaken in relation to the animal.

(4) Nothing in this section applies to the destruction of an animal in an appropriate and humane manner.

14 Codes of practice

(1) The appropriate national authority may issue, and may from time to time revise, codes of practice for the purpose of providing practical guidance in respect of any provision made by or under this Act.

(2) The authority responsible for issuing a code of practice under subsection (1) shall publish the code, and any revision of it, in such manner as it considers appropriate.

(3) A person's failure to comply with a provision of a code of practice issued under this section shall not of itself render him liable to proceedings of any kind.

(4) In any proceedings against a person for an offence under this Act or an offence under regulations under section 12 or 13—

(a) failure to comply with a relevant provision of a code of practice issued under this section may be relied upon as tending to establish liability,

and

(b) compliance with a relevant provision of such a code of practice may be relied upon as tending to negative liability.

Troseddau a Chosbau

Gellir rhoi hyd at 51 wythnos o garchar a/neu ddirwy i rywun sy'n euog o drosedd o dan adran 4 o'r Ddeddf. Os bydd yn euog o drosedd o dan adran 9 (peidio â gofalu am les yr anifail) gellir rhoi'r un faint o garchar iddo a dirwy o hyd at lefel 5 o'r raddfa safonol.

Gellir dwyn achos hyd at 3 blynedd ar ôl i'r drosedd gael ei chyflawni. Y cyngor lleol fydd yn dwyn yr achos o dan y Ddeddf, yn y Llys Ynadon.

Deddfwriaeth arall sy'n effeithio ar gŵn

Yn ogystal â Deddf Lles Anifeiliaid 2006 mae nifer o gyfreithiau eraill yn effeithio ar y ffordd rydych yn cadw'ch ci. Ceir crynodeb isod o'r rhai sydd fwyaf tebygol o effeithio ar geidwad ci anwes.

Bridio a Phrynu

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014, rhaid i unrhyw un sy'n berchen ar dair gast fagu neu fwy ac sy'n bodloni un neu fwy o'r meini prawf a restrir yn y Ddeddf, gael trwydded. Nod y Rheoliadau yw rheoli 'ffermydd cŵn bach' sy'n cadw cŵn o dan amodau gwael. Os ydych yn credu bod yr unigolyn rydych yn prynu ci bach oddi wrtho yn magu cŵn ar raddfa fawr ac nid fel hobi yn unig, gofynnwch am gael gweld ei drwydded neu gofynnwch i'r cyngor a oes un ganddo. Os bydd ci'n cael ei werthu'n fasnachol, fel mewn siop anifeiliaid anwes, rhaid bod gan y gwerthwr drwydded o dan Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951.

Rheoli'ch ci

Mae'n ofynnol o dan Reoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015 i roi microsglodyn ar bob ci dros 8 wythnos oed a chofrestru manylion y perchennog ar gronfa ddata gymeradwy. Mae'n ofyn hefyd o dan y Gorchymyn Rheoli Cŵn 1992 i roi coler ar gi gydag enw a chyfeiriad y perchennog arno. Mae dau ddarn arall o ddeddfwriaeth, Deddf Cŵn 1871 a Deddf Cŵn Peryglus 1991, yn ei gwneud yn ofynnol i chi gadw'ch ci o dan reolaeth briodol. Mae'r cosbau ar bobl sydd heb reolaeth ar eu ci yn cynnwys dirwy, carchar ac o bosib difa'r ci. Yn ôl y Ddeddf Cŵn Peryglus mae'n anghyfreithlon cadw, gwerthu na rhoi pedwar brid o gi y ceir traddodiad o'u magu i ymladd: Daeargi Pit Bull, Tosa Siapanaidd, Dogo Argentino a Fila Brasiliero.

Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn rhoi'r pwerau i awdurdodau daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys achosion sy'n gysylltiedig â chŵn peryglus neu gŵn niwsans, mewn ffordd hyblyg ac ymatebol. Mae'n diwygio hefyd Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 er mwyn ei gwneud yn drosedd bod â chi sydd allan o reolaeth a pheryglus unrhyw le, gan gynnwys ar eiddo preifat lle mae gan y ci hawl i fod.

Mae'r Ddeddf yn gwneud ymosodiad ar gi cymorth yn drosedd waethygedig.

Bellach mae gan awdurdodau lleol hefyd y pŵer o dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 i gyflwyno Gorchmynion Rheoli Cŵn. Gellir rhoi Gorchymyn i gadw cŵn ar dennyn neu eu gwahardd o fan benodol neu i'r sawl sy'n gyfrifol am gi i godi ei faw a gall swyddog awdurdod orchymyn cadw ci ar dennyn a gall y Cyngor roi terfyn ar nifer y cŵn y caiff rhywun fynd â nhw am dro ar y tro. Pan fydd Gorchymyn mewn grym dylai fod arwyddion clir felly dylech gadw'ch llygad ar agor amdanynt. Hefyd, yn Neddf 2005, mae'r cyfrifoldeb am gŵn strae yn cael ei drosglwyddo o'r heddlu i'r cyngor lleol. Caiff cyngor roi dirwy i berchennog unrhyw gi strae sy'n cael ei ddal a gall godi ar y perchennog am gostau ei gadw. Gellir anfon ci strae sydd heb dag neu sydd heb ei hawlio o fewn saith niwrnod at asiantaeth ailgartrefu neu ei ddifa.

O dan Ddeddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953 mae perchennog ci yn cyflawni trosedd os yw ei gi yn poeni (yn erlid neu'n ymosod ar) da byw ar dir amaethyddol. Mewn cae lle mae defaid, rhaid cadw ci ar dennyn, neu o dan reolaeth gaeth o fath arall.

Mae Deddf Anifeiliaid 1971 yn nodi pwy sy'n atebol (er bod amddiffyniad) am y niwed a wneir gan gi i dda byw neu fathau eraill o niwed a wneir gan gi direolaeth o dan rai amgylchiadau.

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Coleri Electronig) (Cymru) 2010 yn ei gwneud hi'n drosedd rhoi dyfais sy'n gallu rhoi sioc drydan ar gi neu gath. Mae dyfais yn golygu coleri atal cyfarth, coleri hyfforddi o bell a ffensys 'anweledig' sy'n rhoi sioc trwy'r goler.

Mae Deddf Cŵn Gwarchod 1975 yn gosod gofynion penodol ar y rhai sy'n gyfrifol am gŵn gwarchod gan gynnwys yr angen i'w cadw o dan reolaeth neu wedi'u clymu drwy'r amser ac i roi arwyddion rhybuddio i fyny wrth bob mynedfa i'r safle a warchodir.

Lletya'ch ci pan fyddwch oddi cartref

Os ydych oddi cartref a bod angen rhoi'r ci mewn llety cŵn, gofalwch fod y llety wedi'i drwyddedu gan yr awdurdod lleol o dan Ddeddf Sefydliadau Lletya Anifeiliaid 1963. Mae'r Ddeddf yn gymwys hefyd i bobl sy'n cadw cŵn yn eu cartref am dâl (y cyfeirir atyn nhw fel arfer fel 'llety cartref').

Mynd â'ch ci dramor

Mae yna reolau statudol y mae'n rhaid cadw atyn nhw wrth fynd â'ch ci o wlad i wlad:

- Yn Ewrop, rhaid cadw at amodau'r Cynllun Teithio Anifeiliaid Anwes;
- Dylai perchenogion ddysgu beth yw gofynion y cynllun a rhoi digon o amser iddyn nhw wneud yn siŵr eu bod nhw a'u ci yn cadw at y gofynion;
- Mae cosbau trwm am beidio â chydymffurfio;
- Cewch help a chyngor ar-lein yn www.gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/importsexports/pettravelscheme/?skip=1&lang=cy.

O dan Erthygl 4 o Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 mae'n drosedd cludo unrhyw anifail mewn ffordd sy'n achosi, neu sy'n debygol o achosi anaf neu ddioddefaint diangen i'r anifail hwnnw.

Tocio cynffonnau

Mae tocio cynffonnau cŵn wedi'i wahardd yng Nghymru ers 27 Mawrth 2007 o dan Reoliadau Tocio Cynffonnau Cŵn Gwaith (Cymru) 2007. Caiff mathau penodol o gi gwaith eu heithrio o'r gwaharddiad ac mae'r eithriadau'n caniatáu i filfeddyg docio cynffon ci pan fydd y ci'n 5 niwrnod oed neu lai. Bydd y milfeddyg yn rhoi tystysgrif i brofi bod cynffon y ci wedi'i thocio'n gyfreithlon. Y mathau o gŵn y cewch docio eu cynffonnau (ar ôl rhoi tystiolaeth y caiff ei ddefnyddio fel ci gwaith) yw:

- Tarfgwn: English Springer Spaniel, Tarfgi Cymreig a Cocker Spaniel.
- Daeargwn: Jack Russell Terrier, Cairn Terrier, Lakeland Terrier a Norfolk Terrier.
- Cŵn Hela, Marcio, Adar: Braque yr Eidal; Tarfgi Llydaw; Pointer Blewyn Hir yr Almaen; Pointer Blewyn Cras yr Almaen; Vizsla; Vizsla Blewyn Cras; Spinone; Ci Dŵr Sbaen; Weimaraner; Korthals Griffon; Pointer Blewyn Garw Slofacia; Munsterlander Mawr; Munsterlander Bach.

Gosod microsglodion mewn cŵn

Daeth Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015 i rym ar 6 Ebrill 2016, gan ei gwneud yn orfodol gosod microsglodyn ar gŵn yng Nghymru.

Deddf Milfeddygon Llawfeddygol 1966

Mae Deddf Milfeddygon Llawfeddygol 1966 yn fodd i reoleiddio'r proffesiwn milfeddygon at ddiben diogelu iechyd a lles anifeiliaid a diogelu iechyd pobl.

Atodiad 2: Ffynonellau Gwybodaeth Defnyddiol

Association of Dogs and Cats Homes: www.adch.org.uk

Cymdeithas Cwnselwyr Ymddygiad Anifeiliaid Anwes: www.apbc.org.uk

Battersea Dogs and Cats Home: www.battersea.org.uk

Y Groes Las: www.bluecross.org.uk

Cymdeithas Milfeddygon Anifeiliaid Bach Prydain: www.bsava.com

Cymdeithas Milfeddygon Prydain: www.bva.co.uk

Dogs Trust: www.dogstrust.org.uk

PDSA: www.pdsa.org.uk

Petlog: www.petlog.co.uk

Pet Care Trust: www.petcare.org.uk

Cyngor Iechyd Anifeiliaid Anwes: www.pethealthcouncil.co.uk

Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Bwyd Anifeiliaid Anwes: www.pfma.org.uk

RSPCA Cymru: www.rspca.cymru

The Kennel Club: www.thekennelclub.org.uk

Coleg Brenhinol y Milfeddygon: www.rcvs.org.uk

Gwefan Llywodraeth Cymru am wybodaeth am Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 a lles anifeiliaid wrth eu cludo ac i lawrlwytho copi o'r Cod Ymarfer ar Les Cŵn: www.llyw.cymru/llesanifeiliaid

Gwybodaeth am anifeiliaid anwes a gwenwyn: www.animalwelfarefoundation.org.uk/wp-content/uploads/2017/06/Pets-and-Poisons-1.pdf